# CAN NEWYDD

YN RHODDI HANES

# AM Y DDAMWAIN ECHRYSLON

A GYMEROEDD LE

*Foreu Dydd Mercher, Ionawr 14eg, 1846,*

# YN NGWAITH MEISTRIAID RUSSEL,

# RISCA,

*Trwy i'r Damp danio pryd y collodd un ar bymtheg ar ugain o ddynion eu bywydau.*

Ceuir ar y Don Fechan

YN Sir Fynwy 'nawr mae galar
O achos damwain drom ysgeler,
A ddygwyddodd trist mynegi,
Trwy'r elfen dân mae'n hysbys ini.

Pedwaryd dydd ar ddeg bu tristwch
O fis Ionawr, Gymry gwelwch;
Gerllaw i Risca, rhaid yw crybwyll,
Y gwnaeth y *damp* rhyw archoll erchyll.

Nis gwyr un dyn y man a'r mynyd
Rhydd angau derfyn at ei fywyd;
Mae llawer yn y mor marw,
Pwy wyr pa ddull daw angau chwerw.

Creigydd, coedydd, mi fynega,
Gan dân ca'dd llawer un ei ddifa;
Trwy'r elfen daullyd, enbyd yma
Bu chwerw ddamwain yn y Risca.

Dydd Mercher, yn y borau'n burion
I'w gwaith fel arfer aeth y dynion,
Heb feddwl fawr fod wrth eu sodlau
Angau, brenin dychryniadau.

Y *damp* a daniodd er mawr alar,
Yn y gwaith o dan y ddaear,
Pryd hyn i'r farn y gyrodd angau
Dri deg a chwech o eneidiau.

Y gwynt a chwythodd un o'r dynion,
Yn nghyd a'r *dram* medd hanes union,
Pryd a'r fynyd cafodd fyned
I rodio'r ffordd nad oes dychweliad.

Y tri ar ddeg gaed gynta' i fynu
A farnant ydoedd wedi mogu,

OC 3502 2729

Ac nid oes un dyn a aned
All ddweyd mor galed oedd eu gweled.

Pwy all ddodi maes mewn geiriau
Fath dristwch ydoedd yn y Risca;
Ugain gydag un ar bymtheg
Ddaeth i'w diwedd ar un adeg.

Un dyn wrth ddianc am ei fywyd
A ganfu blentyn yn ei arswyd,
At enau'r pwll fe'i caria'n gywra'n,
Hwn oedd ei hynod fab ei hunan.

Pwy all ddirnad ei deimladau
Wrth wel'd mai'i fab ei hun achubai,
'R hwn oedd e'n feddwl ga'dd farwolaeth
Gan y *damp*, Ow! arw hiraeth.

Ei dad ei hun a ddaeth i'w sefyll
Ar y pryd doe'r archoll erchyll,
Pryd yr aeth fel ar un funud
Tri deg a chwech i'r trag'wyddolfyd.

Tadau a mamau sy'n galaru
Am eu plant boed hysbys ini;
A'r gwragedd gweddwon sydd i'w gweled
Yn dwys alaru am eu colled.

Colli'r gwr i wraig sy'n galed,
Colli plentyn, O mor anwyled,
O herwydd hyn y ceir ugeinia'
Yn wylo dagrau yn y Risca.

Dychymygaf gwelaf ddagrau'r dynion
Ar hyd eu gruddiau fel yr afon,
Gan y tristwch mi fynega
Trwy holl ardaloedd cylchoedd Risca.

O mor hiraethlon gwelir galar
Ar ol rhai fygodd tan y ddaear;
Gwragedd am eu gwyr yn gwaeddi,
A'r plant amddifa'd, trwm mynegi.

Mae'r merched ifainc trwy'r gym'dogaeth
Mewn rhyw alar oer a hiraeth
Ar ol eu cariadon mwyngu
Yn y *damp* a ga'dd eu mogu.

D'wed rhai fod un ar bwynt priodi
A rhyw ferch addas hynaws ini,
Yn lle priodi'r feinir fwynlan,
Trwy'r *damp* yr angau aeth a'r bachgen.

O waith y ddamwain y mae'r dynion
Yn galaru, hanes union;
Gwragedd, plant, sydd yno'n cwyno,
Byth 'ddaw'r perthynasau attom etto.

Gwnaed hyn i ninnau, Gymry anwyl,
Bawb i gyrchu at ein gorchwyl,
Marw at bawb mae'n sicr o ddyfod,
O am fod yn buredd barod.

---

*D. Jones, Argraffydd, Merthyr.*